Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Adroddiad monitro: Mawrth 2023

## Cynnwys


**Cyflwyniad** ..... 3

**1. Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE** ..... 3

**2. Cysylltiadau Rhynglywodraethol.** ..... 4

**3. Deddf Marchnad Fewnol y DU** ..... 5

**4. Fframweithiau cyffredin** ..... 6

**5. Deddfwriaeth** ..... 6

- 5.1. Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ..... 6
- 5.2. Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Gyfraith ..... 7
- 5.3. Deddfwriaeth yr Alban ..... 7
- 5.4. Deddfwriaeth y DU ..... 8

**6. Cydsyniad deddfwriaethol** ..... 8

**7. Y Cyfansoddiad** ..... 9

- 7.1. Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ..... 9
- 7.2. Etholiad arweinyddiaeth yr Alban ..... 9

**8. Diwygio'r Senedd ac etholiadau** ..... 10

**9. Cyfiawnder** ..... 11

- 9.1. Cymru ..... 11
- 9.2. Llywodraeth y DU ..... 11

**10. Atodiad: Geirfa ........................................................................................ 13**

# Cyflwyniad

Mae gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gylch gwaith eang sy'n cwmpasu amrywiaeth o feysydd. Bwriad yr adroddiad monitro hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor am ddatblygiadau polisi allweddol sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod hyd at 15 Mawrth 2023.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn ac unrhyw gamau y mae'n dymuno eu cymryd wrth ymateb iddynt. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i randdeiliaid am rai o'r materion y mae’r Pwyllgor wrthi’n eu trafod ar hyn o bryd.

Mae rhestr o dermau allweddol wedi'i chynnwys fel Atodiad.

# 1. Cysylltiadau rhwng y DU a’r UE

**Y DU a’r UE yn cytuno ar newidiadau i Brotocol Gogledd Iwerddon drwy Fframwaith Windsor**

Ar 27 Chwefror, cyflwynodd y DU a’r UE Fframwaith Windsor (“y Fframwaith”) i newid rhannau o Brotocol Gogledd Iwerddon. Mae'r prif newidiadau’n ymwneud â llywodraethu'r Protocol, masnach a lle Gogledd Iwerddon yn y DU, ond maent yn cynnwys datblygiadau cysylltiedig pwysig eraill.

Gwnaeth y Prif Weinidog groesawu'r Fframwaith fel cam ymlaen mewn cysylltiadau rhwng y DU a’r UE, gan ddweud ei fod yn gobeithio y bydd yn lleddfu rhwystrau i fasnachu ym mhorthladdoedd Cymru.

O ganlyniad i’r Fframwaith:

- Ni fydd Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen gyda Bil Protocol Gogledd Iwerddon, yr ataliodd y Senedd gydsyniad ar ei gyfer ym mis Tachwedd;
- ni fydd yr UE yn bwrw ymlaen â’r saith achos o dor-cyfraith sydd ganddo yn erbyn y DU, sydd wedi’u dangos yn y tabl hwn gan Ymchwil y Senedd; a hefyd
- bydd yr UE yn bwrw ymlaen â rhoi mynediad i’r DU i raglenni gwyddoniaeth ac ymchwil yr UE, gan gynnwys Horizon, Yn ôl Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, Ursula von der Leyen, byddai hyn yn digwydd cyn gynted ag y bydd y Fframwaith yn cael ei roi ar waith.

**Yr UE yn rhybuddio bod Bil mewnfudo newydd y DU yn torri cyfraith ryngwladol**

Mae Comisiynydd Materion Cartref yr UE, Ylva Johansson, wedi dweud wrth yr Ysgrifennydd Cartref, Suella Braverman bod Bil Mewnfudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU yn torri cyfraith ryngwladol. Byddai'r Bil yn arwain roi'r rheini rheini sy'n cyrraedd y DU dan gadw, a'u halltudio, gan gynnwys i Rwanda. Yn ôl y Cenhedloedd Unedig mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn torri'r Confensiwn Ffoaduriaid.

Mae hawliau dynol wedi'u gwreiddio yn y berthynas newydd rhwng y DU a'r UE fel bod eu cydweithrediad yn dibynnu ar 'barch at hawliau dynol'. Mae hyn yn berthnasol i'r Cytundeb Masnsach a Chydweithredu ("y Cytundeb") ac i gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn") yn chwarae rhan bwysig yn y Cytundeb a rhoddir pwyslais ar roi effaith i hawliau a rhyddid y Confensiwn yn ddomestig. I'r DU, mae hwn yn gyfeiriad clir at Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ("Deddf 1998"). Ymhlith rhai o amodau'r Cytundeb, os yw'r DU neu'r UE yn gwadu'r Confensiwn neu rai o'i Brotocolau, gellir dod â Rhan 3 ar orfodi'r gyfraith a chydweithrediad barnwrol i derfyn o fewn 15 diwrnod.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllaw hwn gan Ymchwil y Senedd i'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a hawliau dynol.

# 2. Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

Yn ôl dadansoddiad Ymchwil y Senedd **nid yw tua hanner y grwpiau rhyngweinidogol ar lefel portffolio a amlinellir yng** nghytundeb rhynglywodraethol Ionawr 2022 **wedi cyfarfod, neu wedi eu sefydlu yn iawn, hyd yn hyn.**

O'r grwpiau sydd wedi'u sefydlu, y grŵp rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r mwyaf gweithgar. At hynny, dyma'r grŵp sy'n cyhoeddi'r cyfathrebiadau mwyaf manwl. Mae gan grwpiau rhyngweinidogol eraill – er enghraifft y grŵp rhyngweinidogol ar Sero Net – gyfrif geiriau isel iawn o ran hysbysiadau ar fanylion polisi, sy'n awgrymu bod cysylltiadau rhynglywodraethol mewn rhai meysydd yn dal i gael eu cynnal ar sail anffurfiol, yn hytrach nag ar sail ffurfiol.

Er gwaethaf y darluniau cymysg hyn o gysylltiadau rhynglywodraethol, mae sawl cyfarfod o dan y cytundeb cysylltiadau rhynglywodraethol wedi'u cynnal yn y

cyfnod ers yr Adroddiad Monitro diwethaf ym mis Ionawr 2023. Mae hynny'n cynnwys y canlynol:

- Cadeiriodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw, drydydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 1 Chwefror. Cododd y Cwnsler Cyffredinol bryderon yn y cyfarfod am agwedd Llywodraeth y DU at Gonfensiwn Sewel a cyfraith yr UE a ddargedwir. At hynny, sefydlwyd gweithgor costau byw yn y cyfarfod. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol, ochr yn ochr â chyd-hysbysiad.

- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp rhyngweinidogol ar Ddiogelwch ac Ymfudo ar 1 Chwefror. Roedd Jane Hutt, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, yn bresennol. Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan Ysgrifennydd Cartref y DU. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog, ochr yn ochr â chyd-hysbysiad.

- Ail gyfarfod y grŵp rhyngweinidogol ar Etholiadau a Chofrestru (gweler Adran 8).

# 3. Deddf Marchnad Fewnol y DU

**Roedd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)** heb ei gytuno **gan y Senedd ar 17 Ionawr 2023.**

Roedd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn dod i'r casgliad nad oedd angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil gan nad yw'n gwneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru. Cytunodd y Pwyllgor â dadansoddiad Llywodraeth Cymru o effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfraith bresennol Cymru yn dilyn y newidiadau a gynigir ar gyfer Lloegr yn y Bil hwn ond bod hyn y tu allan i gwmpas Rheol Sefydlog 29.

**Gwnaeth Swyddfa'r Farchnad Fewnol** gyhoeddi **ei hadroddiad cyntaf ers ei sefydlu ym mis Medi 2021, a oedd yn archwilio'r effaith y byddai gwaharddiad arfaethedig ar fawn garddwriaethol yn Lloegr yn ei chael ar fasnach o fewn y DU.**

Daeth yr adroddiad – y gofynnwyd amdano gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – i'r casgliad, er y gallai'r gwaharddiad arwain at rai newidiadau mewn patrymau prynu a gwerthu compost sy'n cynnwys mawn a allai gael effaith ar fusnesau unigol, mae'r rhain yn debygol o fod yn gymedrol yng nghyd-destun y farchnad gyffredinol.

**Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi gohebiaeth yn ymwneud â'i gais am eithrio o egwyddorion mynediad i'r farchnad Deddf Marchnad Fewnol y DU ar gyfer ei gynigion i gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes.**

Gwnaeth Prif Weinidog yr Alban ysgrifennu at Brif Weinidog y DU ofyn am sicrwydd bod Llywodraeth y DU yn gweithio tuag at waharddiad ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes, yn dilyn sylw yn y wasg oedd yn awgrymu nad yw Llywodraeth y DU o blaid cytuno i un ohonynt. Pan ofynnwyd iddo am y gwaharddiad yn y Senedd, nododd Ysgrifennydd Gwladol yr Alban fod y rhwystr i Lywodraeth y DU ychwanegu gwaharddiadau at Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn uchel iawn".

# 4. Fframweithiau cyffredin

**Mae dau fframwaith cyffredin dros dro newydd wedi'u cyhoeddi i lywodraethau'r DU gynnal gwaith craffu arnynt.**

Cafodd y Fframwaith Dros Dro Adnoddau a Gwastraff ei osod yn Senedd y DU ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r fframwaith hwnnw'n cwmpasu rhaglenni atal gwastraff gan gynnwys gosod targedau, labelu cynnyrch amgylcheddol , defnyddio ardollau neu gynlluniau dychwelyd ernes, gwahardd gwastraff penodol o safleoedd tirlenwi neu fewnbynnau penodol o gynhyrchion e.e. plastigau untro, adnoddau a threthi gwastraff a chludo gwastraff rhyngwladol, ac mae wedi'i ategu gan feysydd helaeth o gyfraith yr UE a ddargedwir.

Cafodd fframwaith Dros Dro Cynllun Masnachu Allyriadau y DU ei gyhoeddi ar 28 Chwefror 2023. Mae'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â chynllun masnachu allyriadau' y DU.

Mae'r naill fframwaith a'r llall yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

# 5. Deddfwriaeth

## 5.1. Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru

**Mae chwe Bil yn cael eu hystyried gan y Senedd, dau yng Nghyfnod 1, dau yn y cyfnod diwygio pwyllgor a dau wedi bod trwy Gyfnod 4.**

- Cyflwynwyd **Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)** ar 20 Medi, ac mae wedi bod drwy Gyfnod 4.

- Cyflwynwyd y **Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)** ar 7 Mehefin, ac mae wedi bod drwy gyfnod 4.
- Cyflwynwyd **Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)** ar 4 Gorffennaf, ac ar hyn o bryd mae'n mynd drwy'r Cyfnod Ystyriaeth Gychwynnol.
- Cyflwynwyd **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** ar 26 Medi, ac mae yng Nghyfnod 2 ar hyn o bryd.
- Cyflwynwyd **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** ar 13 Chwefror 2023, ac mae'n yn mynd drwy broses graffu Cyfnod 1 ar hyn o bryd.
- Cyflwynwyd **Bil Bwyd (Cymru)** fel Bil Aelod o'r Senedd gan Peter Fox AS ar 17 Tachwedd. Mae'r Bil yn mynd drwy broses graffu Cyfnod 1.

Mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar fin gwneud datganiad am gyflwyno Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru). ddydd Mawrth 21 Mawrth.

Mae ymgynghoriad wedi'i lansio gan Lywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer Bil Tacsi a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru).

## 5.2. Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Gyfraith

**Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei** hadroddiad blynyddol ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith.

Mae'r adroddiad yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o weithredu unrhyw gynigion yn ystod 2022-23 ond bod cynnydd wedi'i wneud ar draws ystod o feysydd, gan gynnwys cydgrynhoi cyfraith cynllunio, diwygio gweinyddiaeth etholiadol a chyflwyno deddfwriaeth i wahardd defnyddio maglau a thrapiau glud.

## 5.3. Deddfwriaeth yr Alban

**Mae agwedd Llywodraeth yr Alban yn y dyfodol at y Bil Diwygio Cydnabod Rhywedd (yr Alban) yn aneglur yn sgil ymddiswyddiad Prif Weinidog yr Alban (gweler adran 7.2).**

Roedd gorchymyn Adran 35 gan Lywodraeth y DU wedi atal y ddeddfwriaeth rhag dod yn gyfraith. Mae'r tri ymgeisydd sy'n cystadlu am yr arweinyddiaeth wedi amlinellu ymagweddau gwahanol at y Bil.

### 5.4. Deddfwriaeth y DU

**Cyhoeddodd y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol ei adroddiad ar waith craffu ar y Bil Hawliau.**

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y byddai cynigion Llywodraeth y DU yn creu ansicrwydd ar raddfa fawr ac yn gwneud niwed difrifol i allu pobol i orfodi eu hawliau. Galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth y DU i ailystyried y mwyafrif o'r Bil Hawliau, a chwestiynodd a ddylent fwrw ymlaen â'r Bil o gwbl.

**Cwblhaodd y Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Lleiaf) ei gamau yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr.**

Byddai'r Bil yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Ysgrifennydd Gwladol y DU i bennu lefelau lleiaf o wasanaeth mewn perthynas â 'gwasanaethau perthnasol' yn ystod cyfnodau o streic. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn feirniadol o'r Bil. Yn ôl y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw mae nifer o wasanaethau cyhoeddus datganoledig y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt yn syrthio o fewn cwmpas y Bil, gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau tân ac achub.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar 9 Chwefror, gan ddadlau bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau lluosog oherwydd effaith y Bil ar wasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Nid yw Llywodraeth y DU yn rhannu barn Llywodraeth Cymru ar yr angen am gydsyniad y Senedd, gan ddadlau bod y Bil yn cwmpasu hawliau a dyletswyddau cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol, sydd oll yn feysydd polisi a gadwyd yn ôl.

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad i'r Bil.

# 6. Cydsyniad deddfwriaethol

**Mae Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer 13 o Filiau newydd y DU wedi'u gosod ers Araith y Frenhines ym mis Mai 2022.**

Mae hyn yn dwyn cyfanswm y memoranda cydsyniad deddfwriaethol a memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol yn y Chweched Senedd i 77 ar draws 32 o Filiau'r DU[1]. Pleidleisiodd y Senedd i atal ei chydsyniad ar gyfer Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Masnach (Awstralia a

[1] Cafodd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ysgolion ei dynnu'n ôl gan Lywodraeth Cymru ar ôl i'r Bil gael ei ollwng gan Lywodraeth y DU, ond mae wedi'i gynnwys yn y ffigurau hyn.

Seland Newydd). ar 31 Ionawr 2023, a'r Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) ar 17 Ionawr (gweler adran 3). Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i argymell bod y Senedd yn atal ei chydsyniad rhag tri o Filiau gweithredol y DU yn eu cyfanrwydd – neu rannau o'r Biliau hynny –[2], gan gynnwys Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio).

**Cytunodd Pwyllgor Gweithdrefn a Breintiau Tŷ'r Arglwyddi ar fesurau pellach i integreiddio gwybodaeth am benderfyniadau cydsyniad deddfwriaethol i drafodion Tŷ'r Arglwyddi.**

Mewn adroddiad o 6 Mawrth, amlinellodd y Pwyllgor fesurau i dagio Biliau yn y ddogfen Papur Trefn dyddiol gyda thestun italig yn egluro penderfyniadau ar gydsyniad deddfwriaethol gan ddeddfwrfeydd datganoledig. At hynny, sefydlodd fecanwaith tagio ar gyfer Biliau lle mae deddfwrfa ddatganoledig o'r farn bod angen cydsyniad ond bod Llywodraeth y DU yn anghytuno. Mae hyn yn ychwanegol at dagio penderfyniadau cydsynio sy'n bodoli eisoes yn nogfen Busnes Tŷ'r Arglwyddi, a'r diweddariad llafar Gweinidogol ar y trydydd darlleniad pan nad yw cydsyniad wedi'i roi eto, neu ei fod wedi'i atal.

# 7. Y Cyfansoddiad

## 7.1. Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

**Gwnaeth y Comisiwn gyhoeddi fframwaith ar gyfer dadansoddi ac arfarnu'r tri opsiwn cyfansoddiadol a nodir yn ei adroddiad interim: Atgyfnerthu datganoli, y DU ffederal ac annibyniaeth.**

Mae'r Comisiwn yn bwriadu defnyddio'r fframwaith fel "sail ar gyfer dadansoddi goblygiadau pob opsiwn" ac mae'n croesawu safbwyntiau ar y fframwaith erbyn 31 Mawrth 2023.

## 7.2. Etholiad arweinyddiaeth yr Alban

**Ar 15 Chwefror, cyhoeddodd Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, ei bwriad i ymddiswyddo.**

24 Chwefror oedd y dyddiad cau i ddatgan bwriad i gystadlu am yr arweinyddiaeth, ac yn dilyn y dyddiad hwnnw roedd tri ymgeisydd: Kate Forbes, Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros Gyllid a'r Economi, Humza Yousaf,

[2] Nid yw hyn yn cynnwys Bil Protocol Gogledd Iwerddon. Gwnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi ei bod yn atal y Bil hwn ar 27 Chwefror 2023 fel rhan o drefniadau newydd o dan Fframwaith Windsor.

Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol; ac Ash Regan, ASA dros Ddwyrain Caeredin.

Bydd pleidlais Aelodau'r SNP i ethol yr arweinydd nesaf yn agor ar 13 Mawrth ac yn cau ar 27 Mawrth, gydag enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi ar yr un diwrnod.

# 8. Diwygio'r Senedd ac etholiadau

**Cynhaliwyd ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Etholiadau a Chofrestru ar 25 Ionawr.**

Roedd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw, yn bresennol yn y cyfarfod. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol yn y cyfarfod fod yr ymgynghoriad ar foderneiddio'r system etholiadol yng Nghymru wedi dod i ben, ar ôl cael tua 200 o gyflwyniadau. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r ymatebion. Roedd y cynigion a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad yn cynnwys cyflwyno arfer o gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig a dileu cofrestrau agored.

Bu'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog yr Alban dros Fusnes Seneddol, George Adam, hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y cynnydd tuag at weithredu gwasanaeth ar-lein newydd ar gyfer ceisiadau am bleidlais absennol – er enghraifft pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy – gan ddisodli'r system bapur. Roedd y gwasanaeth newydd hwn i ddechrau ar gyfer pleidleisiau a gadwyd yn ôl yn unig o dan Ddeddf Etholiadau'r DU 2022, ond cadarnhaodd y ddau Weinidog eu bod wedi gofyn am fynediad i'r system ar gyfer etholiadau datganoledig.

**Cafodd ymgynghoriad ar reolau drafft, sy'n nodi'r modd y dylid cynnal etholiadau os yw awdurdod lleol yn mabwysiadu'r system etholiadol pleidlais sengl drosglwyddadwy, ei lansio ar 10 Chwefror.**

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ddewis rhwng rhan gyntaf bresennol y system post neu newid i system pleidlais sengl drosglwyddadwy. At hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod rheolau ar gyfer defnyddio pleidlais sengl drosglwyddadwy. Does dim un cyngor yng Nghymru wedi dewis newid i bleidlais sengl drosglwyddadwy, hyd yn hyn. I wneud hynny mewn pryd ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2027, byddai'n rhaid i gyngor basio cynnig cyn 15 Tachwedd 2024.

# 9. Cyfiawnder

## 9.1. Cymru

**Gwnaeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ymateb i gais y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol am wybodaeth yn ymwneud ag anghymesuredd hiliol o fewn system cyfiawnder troseddol Cymru.**

Mae’r ymateb yn amlinellu’r modd y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i fynd i’r afael ag anghymesuredd hiliol yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys drwy’r Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru a'r gwaith y mae'r Uned Tystiolaeth am Wahaniaethu ar sail Hil yn ei wneud i wella'r broses o gasglu a monitro data yn system cyfiawnder troseddol Cymru.

**Clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg dystiolaeth gan Syr Andrew Mcfarlane, Llywydd yr Adran Deuluoedd, a Mr Ustus Francis, Barnwr Cyswllt Adran Deuluoedd Cymru, fel rhan o'u hymchwiliad i wasanaethau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal.**

Fel rhan o'i dystiolaeth, nododd Mr Ustus Francis sut y mae'n sicrhau bod barnwyr, bargyfreithwyr a chyfreithwyr sy'n eistedd yn y Llys Teulu yng Nghymru yn ymwybodol o'r gwahaniaethau yn y gyfraith rhwng Cymru a Lloegr.

## 9.2. Llywodraeth y DU

**Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi lansio adolygiad o’r system cymorth cyfreithiol sifil.**

Bydd yr adolygiad yn ystyried y system yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys y modd y caiff gwasanaethau eu caffael, pa mor dda y mae’r system bresennol yn gweithio i ddefnyddwyr a sut mae cymorth cyfreithiol sifil yn effeithio ar y system gyfiawnder yn fwy eang.

**Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi y bydd 24 o ystafelloedd llys ‘Nightingale’ – a sefydlwyd i hybu capasiti yn ystod pandemig y Coronafeirws – yn aros ar agor am flwyddyn arall.**

Mae’r 24 o ystafelloedd llys wedi’u lleoli ar draws 11 o safleoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys ystafell Llys y Goron yn y Ganolfan Ddinesig yn Abertawe.

**Mae rhagamcanion pum mlynedd ar gyfer poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr wedi'u cyhoeddi.**

Yn ôl y rhagamcanion, rhagwelir y bydd poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr yn cynyddu, gydag amcangyfrif canolog o 94,400 erbyn mis Mawrth 2025, o'i gymharu â phoblogaeth o 83,687 ym mis Chwefror 2023. Rhagwelir y bydd poblogaethau gwrywod, oedolion benywaidd, plant a phobl dros 50 oed i gyd yn cynyddu.

**Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cyhoeddi ei Hadroddiad Monitro Blynyddol ynghylch y Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2021-22.**

Mae'r adroddiad yn amlygu'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar draws datblygu a gweithredu polisi, recriwtio a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd.

**Mae ymgynghoriad wedi'i lansio gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ddiwygiadau i'r cynllun help gyda ffioedd ('*Help with Fees*').**

Mae'r cynllun yn sybsideiddio cost ffioedd llys a thribiwnlys ar gyfer unigolion ar incwm isel heb fawr o arbedion, os o gwbl. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cynigion i newid cymhwysedd ar gyfer y cynllun fydd, yn ôl y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn gwneud y cynllun yn fwy hael, yn targedu cymorth ariannol at y rheini sydd â'r angen mwyaf, tra'n darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

# 10. Atodiad: Geirfa

## Fframwaith ar ôl Brexit: termau allweddol

| | |
|---|---|
| Rhwymedigaethau rhyngwladol | Dyletswyddau ac ymrwymiadau rhyngwladol y DU |
| Cytundebau masnach | Sefydlu trefniadau masnachu newydd rhwng y DU a gwledydd eraill |
| Cytundebau rhyngwladol | Cytundebau rhwng y DU a gwledydd neu sefydliadau eraill |
| Cytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE | Sefydlu'r berthynas newydd rhwng y DU a'r UE |
| Cytundeb Ymadael y DU a'r UE | Gosod telerau ymadawiad y DU o'r UE |
| Protocol Iwerddon a Gogledd Iwerddon | Rhan o'r Cytundeb Ymadael i osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon |
| Deddf yr UE (Ymadael) 2018 | Trosi cyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig, yn atal deddfau newydd yr UE rhag cael effaith awtomatig yn y DU ac yn rhoi pwerau i Weinidogion gywiro'r llyfr statud ar ôl ymadael â'r UE |
| Deddf yr UE (Cytundeb Ymadael) 2020 | Gweithredu'r Cytundeb Ymadael |
| Deddf yr UE (y berthynas yn y dyfodol) 2020 | Gweithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu |
| Deddf Marchnad Fewnol 2020 | Sefydlu rheolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau ledled y DU |
| Fframweithiau Cyffredin | Sefydlu fframweithiau ledled y DU ar gyfer rhai meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol gan yr UE |
| Gweithredu rheoliadau | Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i weithredu'r trefniadau newydd |
| Cywiro rheoliadau | Pasio rheoliadau yn y Senedd neu Senedd y DU i sicrhau bod deddfau'r UE a ddargedwir ar ôl ymadael â'r UE yn ymarferol mewn cyd-destun domestig |

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**